EM

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2003 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli Rheoliadau Addysg (Manylion Ysgolion Annibynnol) 1997 mewn perthynas â Chymru. Maent yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru ysgolion annibynnol o dan adran 160(1) o Ddeddf Addysg 2002 ac â'r wybodaeth sydd i'w darparu'n achlysurol gan berchenogion ysgolion annibynnol o dan adran 168 o'r Ddeddf honno.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *[ ] 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2004* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 160(1) a 168 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2004.

(2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 1996"(**2**) *(“the 1996 Act”)* yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 2002" *(“the 2002 Act")* yw Deddf Addysg 2002;

ystyr “cais” *(“application”)* yw cais a wnaed i'r awdurdod cofrestru i gofrestru ysgol annibynnol gan y perchennog yn unol ag adran 160(1)(b) o Ddeddf 2002;

(**1**) 2002 p.32. *Gweler* adran 212(1) ar gyfer y diffiniad o “regulations”, yn eu rhinwedd hwy y mae’rheoliadau hyn a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gymwys mewn perthynas â Chymru’n unig. Mae adran 212(1) yn diffinio “prescribed” hefyd.

(**2**) 1996 p.56.

ystyr "y gofrestr" *("the register")* yw cofrestr ysgolion annibynnol a gedwir gan yr awdurdod cofrestru o dan adran 158(3) o Ddeddf 2002;

mae i "perchennog" yr ystyr a roddir i *"proprietor"* yn adran 579 o Ddeddf 1996;

ystyr "ysgol" (*"school"*) yw ysgol annibynnol fel y'i diffinnir gan adran 463 o Ddeddf 1996; ac

ystyr "ysgol gofrestredig" *("registered school")* yw ysgol y mae cofnod o'i henw ar y gofrestr.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau at berson a gyflogir mewn ysgol yn gyfeiriad at berson sy'n cyflawni gwaith y mae adran 142 o Ddeddf 2002 yn gymwys iddo.

**Cais am gofrestru ysgol annibynnol**

**3**. Rhaid i bob cais—

(a) cael ei wneud yn ysgrifenedig;

(b) datgan y dyddiad cyntaf y bydd ysgol yn bwriadu derbyn disgyblion;

(c) cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen; ac

(ch) cynnwys tystysgrif wedi'i llofnodi gan y perchennog bod y datganiadau a wnaed yn y cais yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

**Cyflwyno ffurflen cyn pen y tri mis cyntaf o weithredu**

**4.** Rhaid i berchennog ysgol gofrestredig gyflwyno i'r awdurdod cofrestru cyn pen tri mis ar ôl derbyn disgyblion, neu un disgybl os yw'r disgybl hwnnw o fewn adran 463(1)(b) o Ddeddf 1996, ffurflen ysgrifenedig rhaid ei bod yn cynnwys —

(a) yr wybodaeth a bennir yn Rhan 3 o'r Atodlen; a

(b) tystysgrif wedi'i llofnodi gan y perchennog, neu gan berson a awdurdodwyd ganddo i roi'r dystysgrif ar ei ran, bod y datganiadau a wnaed yn y ffurflen yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

**Ffurflen flynyddol**

**5**.—(1) Ym mhob blwyddyn ysgol rhaid i berchennog ysgol gofrestredig gyflwyno i'r awdurdod cofrestru ffurflen flynyddol ar gyfer yr ysgol honno cyn pen mis ar ôl i'r awdurdod cofrestru ofyn amdani.

(2) Rhaid i bob ffurflen flynyddol —

(a) cael ei darparu yn ysgrifenedig;

(b) bod wedi'i llenwi hyd at y dyddiad a bennir gan yr awdurdod cofrestru;

(c) cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rhan 4 o'r Atodlen; ac

(ch) cynnwys tystysgrif wedi'i llofnodi gan y perchennog, neu gan berson a awdurdodwyd ganddo i roi'r dystysgrif ar ei ran, bod y datganiadau a wnaed yn y ffurflen flynyddol yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

**Adroddiadau ar gamymddwyn**

**6.** Rhaid i berchennog ysgol gofrestredig, cyn pen pymtheng niwrnod i gais, roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani ac y mae'n ei hystyried yn berthnasol i'r swyddogaethau y mae'n eu harfer neu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 142 o Ddeddf 2002, ac nad yw eisoes wedi cael ei rhoi iddo o dan Reoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003(**3**).

**Tynnu ysgol o'r gofrestr**

**7.** Os yw'r awdurdod cofrestru wedi'i fodloni bod perchennog ysgol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir yn rheoliadau 4, 5 neu 6, caiff dynnu'r ysgol honno o'r gofrestr.

**Tramgwydd**

**8**. Os bydd perchennog ysgol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a bennir yn rheoliadau 4, 5 neu 6 bydd yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Uchafswm ar gyfer ysgolion sydd eisoes yn bodoli**

**9.** Mewn perthynas ag unrhyw ysgol a gofrestrwyd cyn 1 Ionawr 2004, mae "uchafswm y disgyblion" at ddibenion adran 162 o Ddeddf 2002 i droi, ar y dyddiadhyd ato y mae ffurflen flynyddol 2004 yn cael ei llenwi, yn nifer y disgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgol ar y dyddiad hwnnw.

**Dirymu**

**10**. Mae Rheoliadau Addysg (Manylion Ysgolion Annibynnol) 1997(**4**) yn cael eu dirymu mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

Dyddiad

---

(**3**) O.S. 2003/542 (Cy. 76)
(**4**) O.S. 1997/2918.
(**5**) 1998 p.38.

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# YR ATODLEN

**Rheoliadau 3,4 a 5**

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

**1.** Yn yr Atodlen hon —

mae i "elusen" yr ystyr a roddir i "*charity*" yn adran 96(1) o Ddeddf Elusennau 1993(**6**);

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ac sy'n cyrraedd yr un oedran yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi yn y flwyddyn ysgol pan wneir y cais (neu, yn ôl y digwydd, yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi yn union o flaen y dyddiad hyd ato y llenwir y ffurflen flynyddol); ac

ystyr "llety byrddio" ("*boarding accommodation*") yw llety dros nos y mae'r ysgol yn ei drefnu neu ei ddarparu yn yr ysgol neu yn rhywle arall, ac eithrio llety i ddisgyblion i ffwrdd o dir ac adeiladau'r ysgol ar drip am gyfnod byr.

## RHAN 2

## GWYBODAETH Y MAE EI HANGEN MEWN CAIS

**2.**—(1) Enw llawn y perchennog, ac unrhyw enwau blaenorol a fu ganddo.

(2) Naill ai –

(a) cyfeiriad preswyl arferol, rhif ffôn, dyddiad geni a rhif Yswiriant Cenedlaethol y perchennog os yw'n unigolyn.

(b) cyfeiriad a rhif ffôn prif swyddfa neu swyddfa gofrestredig os yw'r perchennog yn gorfforaeth, yn ffyrm Albanaidd neu'n gorff o bersonau.

(3) Enw a chyfeiriad yr ysgol, ei chyfeiriad e-bost, ei rhif ffôn a'i rhif ffacs.

(4) Os oes gan yr ysgol gorff llywodraethu, enw llawn a chyfeiriad preswyl arferol a rhif ffôn Cadeirydd y corff hwnnw.

---

(**6**) 1993 p.10.

**3.**—(1) Ystod oedran arfaethedig y disgyblion.

(2) Uchafswm arfaethedig y disgyblion.

(3) P'un a yw'r ysgol ar gyfer disgyblion gwrywaidd, neu ddisgyblion benywaidd neu'r ddau.

(4) P'un a yw'r ysgol yn darparu llety byrddio ar gyfer disgyblion.

(5) P'un a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

(6) P'un a fydd yr ysgol yn darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r math o anhawster dysgu y darperir ar ei gyfer.

(7) P'un a fydd yr ysgol yn darparu gofal dydd o fewn ystyr paragraff 1(2) o Atodlen 9A i Ddeddf Plant 1989(**7**) ar gyfer unrhyw blentyn y gofalir amdano yn yr ysgol.

(8) Plan yn dangos gweddlun y tir a'r adeiladau a'r llety.

(9) Cynlluniau cwricwlwm manwl, cynlluniau gwaith a gweithdrefnau asesu disgyblion.

(10) Copïau o'r polisïau ysgrifenedig sy'n ofynnol gan reoliad 3(2) o'r Atodlen i Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Safonau) (Cymru) 2003(**8**).

(11) Copi o'r drefn gwyno y mae paragraff 7 o'r Atodlen i Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol.

(12) P'un a yw'r perchennog yn bwriadu darparu llety byrddio i unrhyw blentyn yn yr ysgol (neu yn rhywle arall yn unol â threfniadau a wnaed ganddo) am fwy na 295 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn.

(13) Anian grefyddol yr ysgol, os oes un.

(14) P'un a yw tir ac adeiladau'r ysgol, gan gynnwys llety byrddio, mewn dau leoliad neu fwy, ac os felly, cyfeiriad pob un o'r lleoliadau.

(15) Os yw'r ysgol yn elusen, neu'n cael ei rhedeg gan elusen, enw'r elusen honno a'i rhif cofrestru.

(16) Copi o'r Dystysgrif Ddatgelu ar y lefel briodol a ddyroddir gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau bod y perchennog yn addas i weithio gyda phlant.

(17) Copi o asesiad risgiau'r ysgol o dan reoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(**9**) i'r graddau y mae'n berthnasol i rwymedigaethau o dan Ran II o Reoliadau Rhagofalon Tân (y Gweithle) 1997(**10**).

---

(**7**) 1989 p.41.
(**8**) O.S. 2003/[ ] (Cy.[]).
(**9**) O.S. 1999/3242.
(**10**) O.S. 1997/1840; diwygiwyd gan O.S. 1999/1877.

# RHAN 3

## GWYBODAETH Y MAE EI HANGEN YN Y FFURFLEN SYDD I'W CHYFLWYNO CYN PEN Y TRI MIS CYNTAF AR ÔL DERBYN DISGYBLION

**4.**—(1) Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn perthnasol.

(2) Yn achos ysgol â llety byrddio –

(a) nifer y disgyblion byrddio; a

(b) oedran yr hynaf a'r ieuengaf o'r disgyblion byrddio (ar 31 Awst yn union cyn y dyddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 5(2)(b)).

(3) Yn achos ysgol sydd hefyd yn darparu addysg ran-amser, rhaid rhoi'r niferoedd y mae is-baragraff (1) yn eu gwneud yn ofynnol ar wahân ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg ran-amser a'r rhai sy'n cael addysg lawn amser.

(4) Yn achos ysgol gydaddysgol, rhaid rhoi'r niferoedd sy'n ofynnol gan y paragraff hwn ar wahân ar gyfer bechgyn a merched.

**5.**— (1) Nifer y disgyblion yn yr ysgol y mae'r awdurdod addysg lleol yn cynnal datganiad o achos anghenion addysgol arbennig yn unol ag adran 324 o Ddeddf 1996 mewn perthynas â hwy; ac mewn perthynas â phob un o'r disgyblion hynny —

(a) ei enw;

(b) y dyddiad pan ddaeth yn ddisgybl yn yr ysgol; ac

(c) enw'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal y datganiad.

(2) Nifer y disgyblion yn yr ysgol nad ydynt yn dod o dan is-baragraff (1), ond y dynodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig.

**6**. Yr wybodaeth ganlynol ynghylch athrawon a gyflogir yn yr ysgol (a rhoddir niferoedd ar wahân ar gyfer dynion a merched) —

(a) nifer yr athrawon llawn amser;

(b) nifer yr athrawon rhan-amser; ac

(c) cyfanswm nifer yr oriau bob wythnos y mae athrawon rhan-amser yn eu gweithio yn ystod y tymor.

**7**. Yr wybodaeth ganlynol ynghylch pob person a gyflogir yn yr ysgol —

(a) enw'r person ac unrhyw enw blaenorol a fu ganddo;

(b) rhyw'r person, ei ddyddiad geni, ei rif Yswiriant Cenedlaethol ac ym mha swyddogaeth y caiff ei gyflogi;

(c) yn achos pob athro, ei gymwysterau a datganiad yn dweud ai ef yw'r pennaeth neu a yw'n athro llawnamser neu ran-amser; ac

(ch) cadarnhad ei fod ef wedi derbyn Tystysgrif Ddatgelu ar y lefel briodol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau ei fod yn addas i weithio gyda phlant.

**8**.—(1) Swm y ffioedd hyfforddi a ffioedd eraill (ac eithrio ffioedd llety byrddio) sy'n daladwy mewn perthynas â disgybl yn yr ysgol ac y mae eu talu yn un o amodau mynychu'r ysgol.

(2) Yn achos ysgol sy'n darparu llety byrddio i ddisgyblion, swm y ffioedd byrddio blynyddol sy'n daladwy mewn perthynas â disgybl byrddio.

# RHAN 4

## GWYBODAETH Y MAE EI HANGEN MEWN FFURFLEN FLYNYDDOL

**9**. Yr holl wybodaeth a bennir gan Ran 2 a 3 o'r Atodlen hon ac eithrio'r hyn a bennir ym mharagraffau 3(6) i 3(10), 3(13) a 7.

**10**. Ar gyfer pob person a ddechreuodd gael ei gyflogi yn yr ysgol neu y daeth ei gyflogaeth i ben ers dyddiad y ffurflen ddiwethaf at yr awdurdod cofrestru—

(a) enw llawn y person ac unrhyw enw blaenorol a fu ganddo;

(b) rhyw'r person, ei ddyddiad geni, ei rif Yswiriant Cenedlaethol ac ym mha swyddogaeth y caiff ei gyflogi;

(c) ym mha le y mae'n athro, ei gymwysterau a datganiad ynghylch pa un ai ef yw'r pennaeth, a yw'n athro llawnamser, neu'n athro rhan-amser; ac

(ch) cadarnhad ei fod ef wedi derbyn Tystysgrif Ddatgelu ar y lefel briodol a roddwyd gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant.

**11**. Yn y ddwy flynedd cyn dyddiad dychwelyd y ffurflen, ac eithrio yn achos y ffurflen flynyddol gyntaf, nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol ac y darparwyd llety iddynt yno (neu yn rhywle arall yn unol â threfniadau a wnaed gan y perchennog) am fwy na 295 diwrnod yn y flwyddyn honno

**12**.—(1) Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn disgyblion 15, 16, 17 a 18 oed sy'n dilyn cyrsiau ar gyfer arholiadau.

(2) Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn o ddisgyblion 15, 16, 17 a 18 oed sydd wedi cwblhau cyrsiau ar gyfer arholiad Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Safon Uwch neu Safon Uwch Gyfrannol), neu Dystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch (TAAU), ond sy'n aros yn yr ysgol at ddiben heblaw dilyn unrhyw gwrs pellach o'r natur honno.

(3) Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn o ddisgyblion 15, 16, 17 a 18 oed (ac eithrio'r rhai sydd yng nghategori'r disgyblion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)) sy'n mynychu'r ysgol at ddiben heblaw dilyn cyrsiau ar gyfer arholiad perthnasol.

(4) Rhaid datgan y nifer a bennir yn y ffurflen flynyddol o dan is-baragraff (1) a (2) ar wahân ar gyfer —

(a) cyrsiau mewn pynciau mathemategol neu wyddonol yn unig;

(b) cyrsiau mewn pynciau eraill yn unig;

(c) cyrsiau mewn pynciau mathemategol neu wyddonol yn rhannol ac mewn pynciau eraill yn rhannol; ac

(ch) bechgyn a merched.

**13**. Os bu newid ar dir yr ysgol neu yn ei hadeiladau neu'i llety byrddio ers y dyddiad hyd ato y llanwyd y ffurflen flynyddol yn uniongyrchol o'i blaen (neu, yn achos y ffurflen flynyddol gyntaf, ers y dyddiad hyd ato y llanwyd yr wybodaeth a gynhwyswyd yn y cais i gofrestru'r ysgol), manylion y newid hwnnw.